

Cynnwys

Rhaglen	2
Cofnodion y cyfarfod diwethaf	5
Eitem 4 - Adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig	12
Atodiad 1 - Is-ddeddfau Harbwr Aberdyfi ac Abermaw	14
Atodiad 2 - Is Ddeddfau Traethau Meirionydd - 2015	20
Atodiad 3 - Is-ddeddfau Promenad - Promenade Byelaws	27
Atodiad 4 - Tystysgrif Angor - 2015	30
Atodiad 5 - Rheoliadau Cyffredinol i ddefnyddwyr Harbwr - 2015	31
Atodiad 6 - Cyfanswm Cofrestrau Cychod Pwer - 2014	32
Atodiad 7 - Cyfanswm Cofrestrau Beic Dwr - 2014	33
Atodiad 8 - Ffioedd Abermaw-2015-16 Inc. VAT	34
Atodiad 9 - Ffioedd Aberdyfi-2015-16 Inc. VAT	35
Atodiad 10 - Ffioedd Lansio a Chofrestru Cychod Pwer a Badau Dwr Personol.	36
Atodiad 11 - Ffioedd Cyffredinol 2015-16	37
Atodiad 12 - Cyllidebau diwedd Chwefror 2015 Abermaw	38
Atodiad 13 - Cyllidebau Chwarter Abermaw	42
Atodiad 14 - Cyllidebau Chwarter 3 Aberdyfi-2014-15	45
Atodiad 15 - Appendix 7 - Chwyddiant-2015-16 - Inflation	47
Atodiad 16 - Canlyniadau Dwr Ymdrochi Bermo-2014	48
Atodiad 17 - Canlyniadau Dwr Ymdrochi Fairbourne-2014	51



Gwasanaeth Democraidd / Democratic Service

Swyddfa'r Cyngor

CAERNARFON

Gwynedd

LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERMAW
BARMOUTH HARBOUR CONSULTATIVE COMMITTEE**

Dyddiad ac Amser / Date and Time

10.30 a.m. DYDD IAU, 19 MAWRTH 2015

10.30 a.m. THURSDAY, 19 MARCH 2015

Lleoliad / Location

Theatr y Ddraig / Dragon Theatre

ABERMAW / BARMOUTH

Pwynt Cyswllt / Contact Point

GLYNDA O'BRIEN

✉: GlyndaOBrien@gwynedd.gov.uk

01341 424 301

Dosbarthwyd: 11.03.15

AELODAETH / MEMBERSHIP

Y Cyng./Cllr. Gethin Glyn Williams	Aelod Tref Abermaw Member from Barmouth Town Council
Y Cyng./Cllr. Louise Hughes	Aelod o Llangelynnin Member from Llangelynnin
Y Cyng./Cllr. Eryl Jones-Williams	Aelod o Ddyffryn Ardudwy Member from Dyffryn Ardudwy
Y Cyng./ Cllr. Lark Davies	Aelod o Gyngor Tref Abermaw Member of Barmouth Town Council
Y Cyng. Mike Scott	Aelod o Gyngor Cymuned Arthog Member of Arthog Community Council
Y Cyng./Cllr. R. A. Williams	Aelod / Member o / of Barmouth Resort Improvement Group
Mr John Johnson	Aelod o Gymdeithas Pysgodfeydd Môr Abermaw a Bae Ceredigion Member of Barmouth and Cardigan Bay Sea Fisheries Association
Mrs Wendy Ponsford	Aelod o Glwb Hwyllo Meirionnydd Member of Merioneth Yacht Club
Mr Mark James	Aelod o Cymdeithas y Bad Achub Member of the Royal National Lifeboat Institution
Mr Llew Griffin	Aelod o Grwp Defnyddwyr Harbwr Abermaw Member of Barmouth Harbour Users Group
Mr Michael Ellis	Aelod o Bwyllgor Ras y Tri Copa / Member of the Three Peaks Yacht Race Committee
Mr John Smith	Aelod o Grwp Mynediad Traphont Abermaw / Member of the Barmouth Viaduct Access Group
Sylwedyddion / Observers:	
Y Cyng. / Cllr. R. J. Wright	Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli / Pwllheli Harbour Consultative Committee
Dr J Jones Morris	Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog / Porthmadog Consultative Harbour Committee
Cyng. /Cllr David Richardson	Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi / Aberdyfi Consultative Harbour Committee

R H A G L E N

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Datgan Cysylltiad Personol**

3. **Cofnodion**

I dderbyn a nodi cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw gynhaliwyd ar y 16 Hydref 2014.

(Atodiad 1 - Papur Gwyn)

4. **Adroddiad y Swyddog Morwrol**

I dderbyn ac ystyried adroddiad y Swyddog Morwrol, Mr Barry Davies.

(Atodiad 2 - Papur Gwyrdd)

5. **Materion i'w hystyried ar gais aelodau o'r Pwyllgor Ymgynghorol**

I dderbyn adroddiadau llafar gan y swyddogion priodol ar y materion canlynol:

- Carthu a chlirio tywod
- Faint o angorfeydd gwasanaeth fydd i ymwelwyr yr haf hwn?
- Cynnydd ar arafu traffig
- Beth yw'r goblygiadau i Gyngor Cymuned Arthog pe byddai Cyngor Tref Abermaw yn cymryd drosodd Harbwr Abermaw?
- Beth yw cynlluniau Abermaw ynghylch Cynllun Llifogydd ac a oes ganddynt Wardeiniaid Llifogydd?

6. **Dyddiad Cyfarfod Nesaf**

I nodi y cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw ar 15 Hydref 2015.

**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw gynhaliwyd
ar y 16 Hydref 2014 yn Theatr y Ddraig, Abermaw**

YN BRESENNOL

Y Cyngorwyr John Wynn Jones, Gethin Glyn Williams (Cyngor Gwynedd), Y Cyng. R. A. Williams, (BRIG-Barmouth Resort Improvement Group), Mr Llew Griffin (Clwb Hwyllo Meirionnydd), Mr Mark James (Cymdeithas y Bad Achub), Mrs Wendy Ponsford (Cymdeithas Defnyddwyr Harbwr Moryd Abermaw)

Hefyd yn Bresennol: Cyng. D. Richardson (Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi) - Sylwedydd

Swyddogion

Mr Llŷr B. Jones	-	Uwch Reolwr Economi a Chymuned
Mr Barry Davies	-	Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig
Mr Glyn Jones	-	Harbwr Feistr
Mr Kris Hughes	-	Cymhorthydd Harbwr
Mrs Glynda O'Brien	-	Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu
Mrs Mererid Watt	-	Cyfieithydd

Ymddiheuriadau: Y Cyngorydd Louise Hughes, Eryl Jones-Williams (Cyngor Gwynedd), Y Cyngorydd Lark Davies (Cyngor Tref Abermaw),

1. **ETHOL CADEIRYDD**

Penderfynwyd: Ail-ethol y Cyngorydd Gethin Glyn Williams i'r Gadair am y flwyddyn 2014-15.

2. **ETHOL IS-GADEIRYDD**

Penderfynwyd: Ail-ethol y Cyngorydd Eryl Jones-Williams yn Is-gadeirydd y Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2014-15.

3. **GAIR O GROESO**

Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod ac yn benodol y Cyngorydd John Wynn Jones, Aelod Cabinet Economi, Cyngor Gwynedd.

4. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd y Cyngorydd Gethin Williams a Mrs Wendy Ponsford fuddiant personol mewn unrhyw fater a drafodir yn ymwneud â'r Clwb Hwyllo gan eu bod yn Aelodau o'r Clwb.

5. **COFNODION**

Cyflwynwyd: Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw gynhaliwyd ar y 20 Mawrth 2014.

Penderfynwyd: Derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir. .

6. ADRODDIAD Y SWYDDOG MORWROL

Cyflwynwyd: Adroddiad y Swyddog Morwrol, Mr Barry Davies ar weithgareddau harbwr Abermaw gyda chyfeiriad penodol at y canlynol:-

(A) Pwyllgorau Ymgynghorol Harbyrau – Cylch Gorchwyl

(i) Esboniwyd bod y Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu wedi cyfathrebu hefo pob un o'r sefydliadau â diddordeb yng ngweithgareddau'r Harbwr gan ofyn iddynt, yn unol â cylchgorchwyl y Pwyllgor, nodi'r rhesymau a'r cyfleoedd lle gwelir y byddant yn gallu cyfrannu fel sefydliad at waith y Pwyllgor Ymgynghorol ynghyd ag anfon tystiolaeth cofnodion cymwys o'u Cyfarfodydd Blynyddol a'u cyfansoddiad fel meini prawf. Nodwyd bod rhai sefydliadau wedi anfon y ddogfennaeth berthnasol ac fe ddisgwylir y gweddill maes o law.

(ii) Gan mai 6 sefydliad a restrwyd ar y rhestr Aelodaeth a bod lle i hyd at saith aelod i gynrychioli gwahanol fuddiannau defnydd yr Harbwr, awgrymodd Aelod y dylid gwahodd Pwyllgor y Tri Chopa fel y seithfed sefydliad cymwys.

(iii) Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn ag adroddiad i'r Cabinet, esboniodd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned mai'r bwriad ydoedd cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cabinet yn rhoi adolygiad o weithgareddau dros y flwyddyn yn yr Harbyrau gyda linc i'r cofnodion. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet Economi efallai na all fynychu pob un o gyfarfodydd y pedwar Pwyllgor Harbwr ond yn sicr roedd yn derbyn cofnodion pob un ohonynt.

Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi'r uchod.

(b) Gofyn i'r Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu anfon llythyr o wahoddiad i Bwyllgor y Tri Chopa enwebu cynrychiolydd i wasanaethu ar y Pwyllgor Ymgynghorol yn ddarostyngedig iddynt gymhwyso â'r meini prawf priodol.

(B) Cod Diogelwch Harbyrau

(i) Adroddodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol hwn wedi derbyn copi o'r Cod Diogelwch Harbyrau ac yn cymryd yn ganiataol, gan na dderbyniwyd unrhyw sylwadau, bod y cynnwys yn dderbyniol i'r Aelodau.

Penderfynwyd: Derbyn a chymeradwyo'r Cod Diogelwch Harbyrau.

(C) Trefniadau Rheolaethol Harbwr Abermaw

(i) Adroddodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod trafodaethau anffurfiol wedi eu cynnal gyda Chadeirydd y Pwyllgor Ymgynghorol er mwyn canfod sut y gellir gweithredu'r Harbwr yn fwy effeithiol a sut y gall preswylwyr yr ardal gymryd perchnogaeth i redeg gweithgareddau dydd i ddydd yr Harbwr.

(ii) Ychwanegodd y Cadeirydd bod y Cyngor Tref yn rhagweithiol yn y dref ac yn awyddus i sefydlu Ymddiriedolaeth yr Harbwr yn unol â disgwyliadau o'r math o weithdrefnau y gellir eu hystyried. Roedd y Cadeirydd eisoes wedi cyflwyno sylwadau ar ran y Gymuned i'r Uwch Reolwr Economi a Chymuned. Fel man cychwyn, awgrymwyd i'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ymchwilio a darparu memorandwm o ddealltwriaeth yr asedau er ystyriaeth y rhanddeiliad fel bo modd iddynt drefnu cynllun busnes addas.

(iii) Nododd cynrychiolydd Cymdeithas Defnyddwyr yr Harbwr bod consensws barn i symud ymlaen ac y byddai modd gwneud hynny mor fuan ag sy'n bosibl yn amodol i'r Cyngor dderbyn cynllun busnes a'i fod yn bwysig i dderbyn gwybodaeth o'r asedau yn nhermau adeiladau, pa ardaloedd y gellid eu rheoli, berchnogi neu lesu. Nodwyd pwysigrwydd i unrhyw asedau fod mewn cyflwr da a diogel.

(iv) Pwysleisiodd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned bod dau egwyddor i'w ystyried sef:

- Atebolrwydd a pherchnogaeth leol
- Pwyslais bod angen i'r Harbwr fod yn ariannol hyfyw

ac yn hyn o beth, rhaid ystyried yr hyn sydd eisoes yn bodoli'n Abermaw a bod y gyllideb yn derbyn cymhorthdal. Nodwyd ymhellach y byddai trawsnewid i redeg yr Harbwr yn fasnachol yn fater i'w ystyried. Yn naturiol byddai angen derbyn barn gyfreithiol ynglyn â'r gwahanol ddulliau sef:

- Ymddiriedolaeth Harbwr a fyddai'n gorff statudol annibynnol
- Dull yn unol ag Adolygiad Porthladd Bwrdeistrefol (Municipal Port Review)
- Pwyllgor Rheoli'r Harbwr (a fyddai'n ofynnol i'r dyletswyddau fod yn gyfrifoldeb i'r Cyngor llawn)

(v) Ychwanegodd yr Aelod Cabinet bwysigrwydd bod unrhyw gynllun busnes yn greiddiol a chynaliadwy i'r dyfodol. Atgoffwyd y Pwyllgor bod y Cyngor yn wynebu toriadau heriol ac ni fyddai'n bosibl cymryd unrhyw gyfrifoldeb o'r Harbwr yn ôl.

Penderfynwyd: (a) Gofyn i'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig fel man cychwyn:

- (i) **Ymchwilio i'r posibilrwydd i drefnu memorandwm o'r asedau ynghyd â chyfreithlondeb unrhyw gynigiad**
- (ii) **Drafod gyda Mr Huw Davies, Peiriannydd, ynglyn â chyflwr waliau'r cei ac unrhyw gyfrifoldebau a fu mewn bodolaeth yn unol a Deddfwriaeth Amddiffyn yr Arfordir**

(CH) Staff Harbwr

(i) Adroddwyd bod cyfnod cyflogaeth Kris Hughes, Cymhorthydd Harbwr Abermaw, wedi ei ymestyn hyd at ddiwedd Hydref a'i fod wedi derbyn swydd lawn-amser fel Meistr Dec i gwmni Holyhead Towing. Talwyd teyrnged a diolchwyd iddo am ei wasanaeth clodwiw dros y tair blynedd diwethaf a dymunwyd yn dda iddo yn ei yrfa newydd.

(ii) Nododd Aelod ei fod yn drist i gollu staff gweithgar o Abermaw a chymerwyd cyfle i dalu teyrnged i Glyn Jones, Harbwr Feistr, am achub bywyd unigolyn ar y traeth yn ystod yr haf.

(iii) Byddir yn derbyn cymorth lle gellir yn unol â'r drefn arferol o Aberdyfi a Phorthmadog ac fe fyddir yn cylchredeg rhaglen waith maes o law i Aelodau ar gyfer Tachwedd/Rhagfyr, Ionawr/Mawrth.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

(D) Mordwyo ac Angorfeydd

(i) Nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod Tŷ'r Drindod, yn unol â'r drefn, wedi archwilio'r cymhorthyddion mordwyo ac ar y cyfan roeddynt wedi cyrraedd y gofynion. Nodwyd pwysigrwydd bod y cymhorthyddion ar eu safleoedd.

(ii) Nodwyd bod yr Harbwr Feistr wedi tynnu rhai angorfeydd allan o'r dŵr a gwelwyd enghreifftiau ohonynt yn ystod y cyfarfod gan dynnu sylw at eu cyflwr gwael. Rhaid mynnu bod yr angorfeydd o ansawdd derbyniol i fedru dal cychod yn ogystal ag ail-edrych ar y trefniadau, o ystyried symudiad yn y tywod.

(iii) Ychwanegwyd i'r uchod, bod rhaid sicrhau'r angen i'r Harbwr Feistr roddi lleoliad i'r cychod er mwyn cadw rheolaeth gan ofyn i berchnogion gwblhau a dychwelyd y ffurflenni perthnasol a'r trefniadau i'w gweithredu ar unwaith. Mewn ymateb i ymholiad, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig os nad yw perchennog angorfa yn cyflwyno tystysgrif angorfa y gall hyn effeithio ar delerau yswiriant. Hyderir y bydd cydweithio rhwng y contractwyr / defnyddwyr ac apeliwyd ar Aelodau i annog defnyddwyr i gydymffurfio â'r rheolau perthnasol. Yr unig angorfeydd cymwys fydd y rhai sydd gyda thystysgrif neu gwch arno.

Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi'r uchod.

(b) Gofyn i'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig anfon copi o'r Is-ddeddfau i Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol a'r holl ddefnyddwyr sy'n gweithredu ar yr Harbwr.

(DD) Ystadegau Morwrol

(i) Cyfeiriwyd Aelodau at yr ystadegau yn dangos nifer y cychod yn Abermaw gan nodi bod y nifer wedi gostwng ond nad oedd hyn yn adlewyrchiad o weithgareddau'r Harbwr ond yn hytrach sefyllfa'r economi.

(ii) Gwnaed sylw bod 54% o'r perchnogion y cychod yn lleol a bod hyn yn galonogol o'i gymharu â Marina Pwllheli gyda 17% yn lleol.

(iii) Nodwyd nad oedd 140 o angorfeydd yn Abermaw yn adlewyrchiad teg oherwydd ni ellir derbyn cyn gymaint â hyn o gychod yno. Mewn ymateb, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod y ffigwr hwn yn un hanesyddol ac y byddai'r Harbwr Feistr yn adolygu'r sefyllfa i'r dyfodol. Byddai hyn yn ymchwiliad diddorol i ganfod gwir capasiti'r Harbwr gyda chais am adroddiad pellach i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Ymgynghorol.

(iv) Awgrymwyd ymhellach pe byddir yn symud y cychod pŵer i ardal Aberamffra, byddai digon o le i'r cychod hwylio. Mewn ymateb, eglurodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig rhaid bod yn wyliadwrus ynglyn â symud cychod i Aberamffra a bod angen gwneud mwy o ymchwil o ran diogelwch y safle, cau'r giatiau, parcio, a.y.b.

(v) Awgrymodd y Cadeirydd y byddai'n ddefnyddiol anfon holiadur i gwsmeriaid sydd yn gadael yr Harbwr i ganfod y rhesymau pam ac y byddai'n fodd i'r Gwasanaeth Morwrol gael gwell dealltwriaeth o anghenion y defnyddwyr ac i wella'r cyfleusterau i'r dyfodol.

Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi'r uchod.

(b) Gofyn i'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig drefnu ymchwiliad pellach i'r nifer o angorfeydd yn Abermaw a'r modd i symud cychod pŵer i Aberamffra.

(E) Cyllidebau Harbyrau

- (i) Cyflwynwyd taenlen gyllideb i'r Aelodau yn ystod y cyfarfod a thywyswyd hwy drwy'r wybodaeth gan nodi bod targed incwm yr Harbwr ar gyfer 2013-14 yn £31,089.33 ac o safbwynt gwariant roedd cyllideb o £63,300 gyda £12,393 o danwariant. Nodwyd bod balansau y flwyddyn ariannol diwethaf yn adlewyrchu gor-fuddsoddiad yn yr Harbwr.
- (ii) O safbwynt flwyddyn gyllidol diwedd Medi 2014-15 roedd cyfanswm gwariant yn £31,856 gyda thanwariant o £12,459.03 o ran incwm.
- (iii) Cyfeiriwyd at ffioedd a thaliadau ar gyfer flwyddyn nesaf a olygai oddeutu 1% o gynnydd.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r cyllidebau.

(F) Trwyddedau Perchnogion a Chychwyr

- (i) Cyfeiriodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig at ddogfennaeth a anfonwyd i'r Aelodau ar wahân ynglyn â'r uchod ac roedd y swyddog yn ymwybodol bod trafferthion wedi codi ynglyn â gweithrediadau'r fferi. Derbyniwyd un cwyn ffurfiol gan y Gwasanaeth Morwrol yn ystod y flwyddyn ond bu i'r mater gael ei ddatrys yn fuan. Byddir yn monitro'r sefyllfa dros y tymor nesaf ac oni chydymffurfir â'r rheolau perthnasol ni fydd dewis ond i symud ymlaen i'r ysgraffau dderbyn trwyddedau MGM 334 gan Wylwyr y Glannau.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

(FF) Digwyddiadau

- (i) **Defnydd a Rheolaeth y Pontŵn** - Adroddwyd gan y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod y Gwasanaeth yn parhau i gynnal a chadw'r pontŵn a bod y gwasanaeth am ofyn barn peirannydd i ddylunio cynllun newydd o gysylltu'r bysedd i'r pontŵn gan ragwedl y bydd yn llawer iawn gwell i'r dyfodol.
- (ii) **Raciau Cychod Gweini** - Adroddwyd bod rac wedi ei adeiladu gan staff yr Harbwr sydd yn sustem lawer iawn mwy diogel ac wedi ei groesawu gan y defnyddwyr ond fe ymddiheurwyd am y byr rybudd a roddwyd i'r defnyddwyr.
- (iii) O safbwynt addasrwydd lliw'r raciau i gyd-fynd â lliw celfi'r Harbwr, gofynnwyd i gynrychiolydd Clwb Hwyllo Meirionnydd anfon gwybodaeth am baent pwrpasol i'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig er ystyriaeth.
- (iv) Nodwyd ymhellach bod angen rhyw fath o adnabyddiaeth perchnogaeth boed hyn yn rif gyda linc i'r angorfa.
- (v) **Difrod Stormydd y Gaeaf** - adroddwyd bod cryn waith wedi ei gwblhau yn dilyn stormydd y gaeaf gydag arian grant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer atgyweirio'r gerddi, traphont a'r promenâd.
- (vi) **Gwobr Traeth** – nodwyd bod canlyniadau dŵr ymdrochi Abermaw wedi cwrdd â gofynion ac y byddir yn chwifio'r Faner Las flwyddyn nesaf. Yn anffodus, roedd y

faner goch wedi ei ddifrodi a'r Cyngor Tref yn pryderu nad oedd yn chwifio. Fodd bynnag, bwriedir ail-leoli'r Faner Goch ar ddiwedd y morglawdd, Ynys y Brawd a Phwynt Penrhyn. Bwriedir cyflwyno adroddiad i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Ymgynghorol gan y Bad Achub yn nodi ffafiaeth tuag at arwyddion yn hytrach na baneri coch.

- (vii) **Consesiynau** - nodwyd y byddir yn adolygu'r rhain yn ystod misoedd y gaeaf.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

7. MATERION I'W HYSTYRIED AR GAIS AELODAU O'R PWYLLGOR YMGYNGHOROL

- (a) Pa fesurau lliniaru/rheoli traffig a ellid eu gosod i wella diogelwch cerddwyr sy'n defnyddio'r harbwr a'r bobl sy'n cael mynediad i'r ceiau a'r llithrfeydd gyda chychod ac offer?

Mewn ymateb, cadarnhaodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y byddai'n cysylltu gyda Dafydd Williams, Uwch Rheolwr Trafnidiaeth, ynglyn â'r uchod.

- (b) Mynegwyd pryderon gan ddefnyddwyr am gyfanrwydd adeileddol y cei a wal y cei. Y farn oedd bod 'bylchau' sylweddol yn yr adeiladwaith yn rhannol o ganlyniad i 'gloddio hydrologig' yn ystod tywydd garw.

Mewn ymateb, cadarnhaodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y byddai'n ymgynghori gyda Mr Huw Davies, Uwch Peiriannydd, ar y mater.

- (c) Gofynwyd bod y Cyngor yn ystyried 'aredig' yr harbwr ger wal y cei i symud y gwaddodion fydd yn cael eu cymryd ymaith gyda'r trai. Byddai hyn yn caniatáu i'r proffil ger wal y cei i gael ei wneud yn wastad fel nad yw'r cychod yn troi i ffwrdd o'r wal pan maent yn setlo ar ddŵr isel. Mae defnyddiwr lleol wedi cynnig gwneud hyn gan ddefnyddio ei offer ei hun, ar yr amod fod ei gostau tanwydd (diesel) yn cael eu cwrdd.

Mewn ymateb, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod angen sicrhau bod unrhyw ddefnyddiwr yn meddu ar drwyddedau priodol yn enwedig gan fod y Pwyllgor Diogelwch ac Iechyd (HSE) yn ymweld ag Abermaw yn rheolaidd.

- (d) Ystyriwch ddarparu 'baddon traed' a chrafwyr esgidiau i ganiatáu i ddefnyddwyr fel rhai â cherbydau dŵr personol, i olchi tywod i ffwrdd cyn defnyddio cyfleusterau'r harbwr neu gael mynediad i adeiladau.

Nodwyd bod chwech o dapiau dwr ffres yn bodoli ar yr Harbwr ac awgrymwyd y dylai cynrychiolydd defnyddwyr yr Harbwr gael pellach gyda'r Harbwr Feistr i drafod beth fyddai'n bosibl ei wneud i ddatrys y broblem, a'r posibilrwydd i osod arwydd i gyfeirio unigolion i'r tapiau.

- (e) Pryder am gyflwr y plinth ar waelod grisiau'r fferi.

Nodwyd y byddai'r uchod yn cael sylw dros y Gaeaf.

- (f) Angorfeydd i ymwelwyr / angori ar y pontŵn

Nodwyd bod y pontwn wedi ei ariannu ar gyfer ymwelwyr a ddim er budd pobl leol i adael eu cychod arno am wythnosau. Prif fwriad y pontwn ydoedd angora dros gyfnod byr a chyfrifoldeb swyddogion y Gwasanaeth Harbwr ydyw sicrhau bod hyn yn digwydd.

(g) Llysnafedd ar y brif lithrfa.

Nodwyd bod y llithrfa wedi ei lanhau ac yn hollol lân. Mewn ymateb i ymholiad ynglyn â'i lanhau yn wythnosol, nodwyd y cyflwynir adroddiadau yn wythnosol gyda phob un o'r llithrfeydd yn cael eu glanhau yn ôl yr angen. Anogwyd Aelodau i gysylltu â'r Harbwr Feistr os oes unrhyw bryder i'r dyfodol.

Penderfynwyd: (i) Derbyn a nodi'r uchod.

(ii) Gofyn i'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ymdrin â materion (a) a (b) uchod.

6. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Penderfynwyd Nodi y cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor Ymgynghorol ar ddydd Iau, 19 Mawrth 2015.

CADEIRYDD.

***Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr
Abermaw
Harbour Consultative Committee***

19 Mawrth / March 2015

Uned Morwrol a Pharciau Gwledig – Crynodeb o'r eitemau i'w trafod.

Maritime and Country Parks Unit – Summary of items for discussion.

1. Cod Diogelwch Harbyrau / Port Marine Safety Code

- Derbyn sylwadau Aelodau ar y Cod Diogelwch Harbyrau / Receive observations of Members on the Port Marine Safety Code.
- Materion yn codi ynglyn a Cod Diogelwch Harbwr / Matters arising relevant to the Port Marine Safety Code

2. Pwyllgorau Ymgynghorol Harbyrau / Harbour Consultative Committees

- Cadarnhau Cylch Gorchwyl Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi 2015 / Confirmation of Aberdyfi Harbour Consultative Committee Terms of Reference 2015
- Cynrychiolaeth Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi 2015/ Aberdyfi Harbour Consultative Committee Representatives 2015

***3. Mordwyo ac Angorfeydd
Navigation and Moorings***

- Cymhorthion Mordwyo / Aids to Navigation
- Bwiau Parth Traethau / Beach Zone Markers
- Cynnal Angorfeydd / Mooring Maintenance

***4. Trwyddedau Perchenogion a Cychwyr
Proprietor's and Boatman's Licenses***

- Telerau'r Trwyddedau / Terms of License
- Sylwadau Defnydd Ysgraff 2014 / Ferry Operation Observations 2014
- Trefniadau Trwyddedu 2015 / 2015 License Arrangements
- Archwiliadau Syrfewr 2015/ Surveyor Inspection 2015
- Man Hwyllo a Glanio / Embarkation and Disembarkation Point

5. *Cyllidebau Harbyrau*
Harbour Budgets

- Targedau Cyllideb Cyfredol 2014-15 / 2014-15 Budget Targets
- Gwariant ac Incwm Cyfredol at Diwedd Chwefror / Current Expenditure and Income to end of February
- Adolygiad Chwarter Tri / Third Quarter Review
- Ffioedd Angorfeydd 2015 Fees and Charges

6. *Digwyddiadau*
Events

- Ras y Tri Pigyn / Three Peaks Yacht Race 2015
- Penwythnos Regata Ceufadau / Canoeing Regatta Weekend
- Gwobr Traeth / Beach Award
- Ansawdd Dwr Ymdrochi 2015 Bathing Water Quality

7. *Goddefiadau a Gwelliannau*
Concessions and Improvements

- Gaeafu Cychod ar dir y Cyngor / Storage of boats on Council Land
- Symud Tywod 2015 Sand Movement
- Ardal Storfa Morwrol / Maritime Compound Area
- Ysgolion Harbwr / Harbour Ladders
- Rheolaeth a cynnal Pontŵn / Pontoon maintenance and Management
- Ardal Harbwr Aberamffra Harbour Area
- Goddefiadau Traeth a Promenâd / Beach and Promenade Concessions
- Cynnal a Chadw Llithfeydd a Promenad / Slipway and Promenade Maintenance

8. *Staff Harbwr / Harbour Staff*

- Trefniadau Staff Gwanwyn/Haf 2015 – Spring/Summer Staff Arrangements 2015
- Rhaglen Waith Cynnal a Chadw 2015 Maintenance Works Programme

9. *Rheolaeth Harbwr / Harbour Management Proposal*

- Diweddariad ar y cynllun / Update on any development

CYNGOR DOSBARTH MEIRIONNYDD

IS-DDEDDFAU PERTHNASOL I HARBWR ABERDYFI A HARBWR ABERMAW

Mae Cyngor Dosbarth Meirionnydd, wrth ymarfer yr awdurdod roddwyd arnynt, mewn perthynas a Harbwr Aberdyfi gan Erthygl 28 o Orchymyn Awdurdodaeth Harbwr Aberdyfi 1972 a'r holl bwerau eraill a'i galluogodd i wneud hyn, ac mewn perthynas i Harbwr Abermaw gan adran 83 o Ddeddf Cymalau Glanfeydd, Dociau a Harbwr 1847 ac fel ei cymhwysir gan adrannau 37 a 40 o Ddeddf Cyngor Dosbarth Dinesig Abermaw 1929, a'r holl bwerau eraill a'i galluogodd i wneud hyn, drwy hyn yn gwneud yr is-ddeddfau sydd i'w cadw, ac ar gyfer rheoli a llywodraethu'r Harbwr yn Aberdyfi ac Abermaw:-

Dyfyniad a Dechreuad

1. Gellir dyfynnu'r Is-Ddeddfau hyn fel Is-Ddeddfau Harbwr Aberdyfi a Harbwr Abermaw 1983, a dânt i rym ar ddiwedd un mis o'r diwrnod y cadarnheir hwy gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

Dirymiad

2. Fe ddirymir drwy hyn bob is-ddeddf flaenorol wnaed ar gyfer rheoli Harbwr Aberdyfi a Harbwr Abermaw.

Dehongliad

3. Yn yr is-ddeddfau hyn, onibai bod gofynion y cyd-destun yn wahanol:-

Golyga'r 'Rheolau Gwrthdrawiad' reolau wnaed dan Ddeddf Llongau Masnach 1894;

golyga 'Y Cyngor' Cyngor Dosbarth Meirionnydd sy'n gweithredu mewn perthynas a'r harbwr;

golyga 'yr harbwr' un ai Harbwr Aberdyfi fel a ddiffinir yn Erthygl 2 o Orchymyn Awdurdodaeth Harbwr Aberdyfi 1972 ac a ddangosir ar y plan a gedwir fel canlyniad i hyn, neu yn achos Abermaw, yr harbwr fel ei diffinir yn adran 45 o Ddeddf Cyngor Dosbarth Dinesig Abermaw 1929, ac a ddangosir ar y plan a gedwir fel canlyniad i hyn, ac mewn perthynas ar ddau harbwr, y tiroedd, adeiladau, gweithfeydd, offer, eiddo a chyfleusterau sy'n gysylltiedig iddynt, ac unrhyw ran ohonynt.

golyga'r 'harbwr feistr' yr harbwr feistr benodwyd gan y Cyngor, ac unrhyw berson arall a benodwyd gan y Cyngor dan ddarpariaethau Gorchymyn Awdurdodaeth Harbwr Aberdyfi 1972 neu y Ddeddf basiwyd yn 1797 ac a nodir yn Adran 36(2) o Ddeddf Cyngor Dosbarth Dinesig Abermaw 1929, er sicrhau cadw'r is-ddeddfau hyn, ac ei neu eu cynorthwywyr awdurdodedig;

golyga 'hofranlong' gerbyd sydd wedi ei gynllunio i'w gynnal yn llwyr neu yn rhannol pan yn symud, gan aer a fwrir allan o'r cerbyd sydd yn ffurfio clustog ac sydd a'i ffiniau yn cynnwys tir, dwr neu arwynebedd arall dan y cerbyd;

golyga 'cerbyd modur' unrhyw gerbyd ar olwynion neu gerbyd gosod trac a yrrir gan ager neu drwy gyfrwng trydan neu fecanyddol neu gemegol gan gynnwys hofranlong pan ar dir, beiciau modur, a threisi-clau.

golyga 'cwch pwer-yriedig' unrhyw gwch a yrrir gan beiriannau;
golyga 'cwch cyflym' unrhyw gwch neu long fechan a yrrir gan bwer mecanyddol,
naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, a chyda modur mewnfwrdd neu
allfwrdd a chyflymdra posibl o 15 morfilltir yr awr mewn dwr llonydd;
golyga 'ar ei ffordd' pan fydd cwch heb ei angori neu heb ei sicrhau i'r
lan neu'r traeth, ond sy'n cynnwys cwch yn symud yn ôl a blaen yn yr harbwr
gan lusgo'i hangor ar y gwaelod;
golyga 'cerbyd' unrhyw gerbyd ar olwynion neu sut bynnag eu gyrrir gan
gynnwys beiciau a threisi-clau;
mae 'cwch' yn cynnwys unrhyw gwch, llong, bad dadlwytho, cilfad, cwch, rafft,
pontwn, neu unrhyw fad arall sut bynnag y'i mordwyr, y'i symudir neu y'i
gyrrir ymlaen, unrhyw awyren môr yn symud ar wyneb y dŵr, ac unrhyw hofranlong
ar neu dros y dŵr. Bernir i awyrennau môr pan yn codi neu ddisgyn ar y dŵr
fod ar wyneb y dŵr tra mewn cysylltiad ag ef.

Is-Ddeddfau Perthnasol i Angori Cychod

4. Ni all unrhyw berson osod neu beri bod angorau'n cael eu gosod yn yr harbwr ar gyfer unrhyw gwch, heb yn gyntaf dderbyn caniatad ysgrifenedig yr harbwr feistr, ac yn unol ag amodau y caniatad hwnnw.
5. Dylai perchennog offer angori eu harchwilio'n flynyddol, fel ag i sicrhau eu bod yn gweithio'n foddhaol, a dylai hefyd anfon trwydded i'r perwyl hynny i'r Cyngor pan yn gwneud cais am ail ddsbarthiad o'i angorfa.
6. Dylai meistwr cwch ofalu ei bod yn cael ei angori yn ddiogel, ac yn y fath fodd, ac mewn rhan o'r harbwr a nodi'r gan yr harbwr feistr o bryd i'w gilydd.
7. Onibai iddo gael awdurdod ysgrifenedig i wneud hynny, neu dderbyn gorchymyn i wneud hynny gan yr harbwr feistr, ni ddylai meistwr cwch ei sicrhau i unrhyw gwch arall nac wrth angorfeydd eraill.

Is-Ddeddfau Perthnasol i Fordwyo

8. Rhaid i feistr cwch fordwyo neu ofalu bod y cyfryw gwch yn cael ei mordwyo yn ofalus ac yn y fath fodd fel na fydd yn achosi perygl i neu achosi niwsans neu gythruddo defnyddiwr cychod eraill nac i beri difrod i unrhyw gwch arall, angorfeydd neu i eiddo arall o fewn neu o gwmpas yr harbwr.
9. Ni ddylai meistwr cwch dros 3.5 metr o hyd adael iddo ddrifftio yn unrhyw ran o'r harbwr ag eithrio mewn argyfwng.
10. Dylai meistwr unrhyw gwch a suddodd yn yr harbwr rybuddio'r harbwr feistr o hyn ar unwaith gan nodi lleoliad y cyfryw gwch.
11. Ni ddylai meistwr cwch ei defnyddio, neu ganiatau, cydsynio neu oddef iddi gael ei defnyddio i dreillio neu bysgota arall gyda rhwyd, neu i gastio lein bysgota mewn unrhyw ran o'r harbwr fel ei fod yn berygl neu'n debygol o fod yr berygl neu rwystr i gychod fordwyo yn yr harbwr, ac i'w ddefnyddwyr, ac i unrhyw berson neu bersonau sydd yn gyfreithlon o fewn ffiniau'r harbwr.
12. Ni ddylai meistwr awyren fôr neu hofranlong achosi na chaniatau i'w awyren fôr neu hofranlong fynd i fewn i'r harbwr ond gyda chaniatad yr harbwrfeistr, ac yn unol a thelerau'r caniatad hwnnw.

13. Ni ddylai meistr achosi na chaniatau i'w gwch deithio ar gyflymder o fwy na 5 milltir forwrol yr awr drwy'r dŵr rhwng y lan a'r bwiau marcio cyflymder. Ni fydd yr Is-Ddeddf hon yn gymwys i unrhyw gwch ar unrhyw achlysur pan ei defnyddir i bwrpas yr heddlu i ymladd tân neu i achub ac mewn amgylchiadau lle y byddai cyfyngu cyflymder o'r fath yn debygol o rwystro defnyddio'r cwch i'r pwrpas y defnyddid ef ar yr achlysur hwnnw.

14. Ni chaiff unrhyw berson achosi ras, ras gychod, neu orymdaith gyhoeddus i gymryd lle yn yr harbwr heb ganiatad ysgrifenedig yr harbwr feistr, ac yn unol a thelerau'r caniatad hwnnw.

15. Rhaid i feistr cwch pwer-yriedig sicrhau ei fod yn rhoddi ffordd i gychod dan hwyliau, a chychod rhwyfo a rhaid i gychod cyflym gadw'n glir o gychod rhwyfo. Fe-gymhwysir y Rheolau Gwrthdrawiad oni bai y gorchmynir yn wahanol gan yr Is-Ddeddfau hyn.

Is-Ddeddfau Perthnasol i Lansio a Thynnu Cychod Allan

16. Ni chaiff unrhyw berson dynnu allan neu lansio cwch o fewn ffiniau'r harbwr heb ganiatad yr harbwr feistr, ac yn unol ag unrhyw gyfarwyddiadau roddwyd ganddo.

17. Ni ddylai perchennog achosi na chaniatau i'w gwch orwedd ar y tir o fewn yr harbwr heb ei fod wedi derbyn caniatad ysgrifenedig yr harbwr feistr ymlaen llaw.

Is-Ddeddfau Perthnasol i Gerbydau yn Harbwr Aberdyfi

18. Ni chaiff unrhyw berson yrru cerbyd modur ar gyflymdra a fwy na deng milltir yr awr o fewn ffiniau'r harbwr.

19. Ni ddylai unrhyw berson, heb fod yn gyntaf wedi derbyn caniatad ysgrifenedig y Cyngor, ddod a charafan neu ôl-gerbyd o fewn ffiniau'r harbwr ac eithrio cerbydau neu ôl-cerbydau a ddefnyddir i gludo cychod neu gyfarpar ar gyfer cychod o'r fath.

20. Ni ddylai unrhyw berson achosi'n ymwybodol i gerbyd ddod neu aros o fewn ffiniau'r harbwr heb ganiatad y Cyngor, ac yn unol a thelerau'r caniatad hwnnw.

21. Rhaid i bob person ddaw a cherbyd o fewn ffiniau'r harbwr ufuddhau i bob cyfarwyddyd awdurdodedig roddir gan yr harbwr feistr, a chydymffurfio gyda phob arwydd a chyfarwyddiadau a ddangosir mewn perthynas a pharcio a symud traffig fodurool, a thalu'r prisiau a godi'r gan y Cyngor.

22. Ni chaif unrhyw berson yrru cerbyd modur mewn unrhyw fan o fewn ffiniau'r harbwr yn y fath fodd fel pe byddai'r cerbyd, - heb fod yn hofranlong, - yn cael ei yrru ar ffordd neu fan cyhoeddus arall o fewn ystyr Deddf Traffig y Ffyrdd 1972, os gwneir hyn, byddai'r person yn emog o drosedd dan Adran 2, Adran 3 neu Adran 5 neu Adran 6 o'r Ddeddf a enwyd.

Is-Ddeddfau Perthnasol i Awdurdod Harbwrfeistr

23. Ni ddylai unrhyw berson ag eithirio pan mae ei gwch ynghlwm, yn cael ei llwytho neu ei dadlwytho, adael unrhyw gerbyd, ôl-gerbyd celfi, nwyddau neu gyfarpar ar yr harbwr heb yn gyntaf fod wedi derbyn caniatad yr harbwr feistr.

24. Gall yr harbwrfeistr, trwy ddangos rhybudd mewn man amlwg yn ardal yr harbwr, ragnodi unrhyw ran o'r harbwr i'w ddefnyddio gan ddsbarth arbennig o gwch, a bydd meist'r neu berchennog unrhyw gwch o ddsbarth arbennig arall fydd yn mordwy, angori, neu ei sicrhau yn y rhan a ragnodwyd, yn enog o drosedd.

25. Gall yr harbwrfeistr trwy ddangos rhybudd yn ardal yr harbwr gyfyngu'r oriau - ag eithrio mewn argyfwng - pan all meist'r neu berchennog unrhyw gwch angori neu sicrhau ei gwch neu ei chwch mewn unrhyw ran o'r harbwr, a bydd meist'r neu berchennog fydd yn sicrhau neu angori ei gwch tu allan i'r oriau hyn yn enog o drosedd.

Is-Ddeddfau Cyffredinol

26. Ni ddylai unrhyw berson yn fwriadol, rwystro, atal, aflonyddu neu ymyrryd yr harbwrfeistr, neu swyddog arall, gwas gweithiwr neu asiant y Cyngor, pan yn cyflawni eu dyletswyddau o fewn yr harbwr.

27. Ni all unrhyw berson, heb ganiatad yr harbwrfeistr, reidio neu reidio beic neu dreisiclau neu sglefrfwrdd o fewn ffiniau'r harbwr.

28. Ni chaiff unrhyw berson arllwys sbwriel neu hylif niweidiol o unrhyw fath a allai achosi llygriad, gan gymryd bob amser na fydd unrhyw beth yn yr is-ddeddf hon yn gymwys i arllwys neu ollwng unrhyw ddefnydd arall sydd yn wrthrych i ddarpariaethau Deddf Atal Llygriad Olew 1971.

29. Ni chaiff unrhyw berson, pan o fewn ffiniau'r harbwr chwarae unrhyw offeryn cerdd, offeryn swnllyd, ganu neu weithredu, neu yn ymwybodol achosi neu ganiatau defnyddio radio, gramaffon neu ddarseinydd, neu wneud unrhyw swm arall a fydd yn debygol o achosi niwsans i unrhyw berson yn y gymdogaeth

30. Ni all unrhyw berson, onibai ei fod wedi derbyn awdurdod ysgrifenedig gan y Cyngor, gario ymlaen o fewn ffiniau'r harbwr unrhyw fasnach neu fusnes, neu werthu neu gynnig fel ar werth unrhyw fwyd, diod, nwyddau neu farsiaeth o unrhyw ddisgrifiad.

31. Ni chaiff unrhyw berson o fewn ffiniau'r harbwr chwarae gem beryglus neu ffiaidd, neu weithgaredd arall o unrhyw fath ac mewn modd fyddai'n rhwystro traffig neu achosi perygl neu niwed i unrhyw berson.

32. Rhaid i feistr unrhyw gwch pwer yriedig, tra mae'r cwch yn yr harbwr, ofalu ei bod yn cario - mewn manau hawdd mynd atynt - nifer digonol o ddiffoddwyr tân o'r math syn addas i ddiffodd tannau olew neu betrol, gan gynnwys o leiaf un diffoddydd o'r math CO² 'Halon' neu 'Foam'.

33. Gall yr harbwrfeistr ofyn unrhyw adeg i feistr cwch o fewn yr harbwr ddangos iddo dystiolaeth o yswiriant gyda pherson neu gyriff o bersonau awdurdodedig dan Adran 3 neu 4 o Ddeddf Cwmnïau Yswiriant 1982 neu dan ddeddfau Gwlad arall sy'n aelod o'r Gymuned Europeaidd i gario allan fusnes yswiriant o'r dosbarth priodol, neu gyda aelodau o Lloyd's, yn erbyn difrod i drydydd parti yn codi o neu mewn cysylltiad a defnyddio'r cwch yn yr harbwr.

Gofalu Rhag i Nwyddau etc. Syrthio i Ddyfroedd yr Harbwr neu Eiddo'r Cyngor

34. Rhaid i feistr cwch a pherson sydd yn ymgymryd a llwytho cargo neu ddadlwytho cargo oddiar gwch, ddefnyddio neu achosi defnyddio dulliau fel a gyfarwyddodd yr harbwrfeistr fel ag i rwystro unrhyw gargo, balast, neu nwyddau eraill rhag syrthio neu ddianc i ddyfroedd yr harbwr, neu ar eiddo'r Cyngor.

Gwaherddir Taflu Sbwriel i Ddyfroedd yr Harbwr

35. Ni chaiff unrhyw berson daflu i ddyfroedd yr harbwr unrhyw sbwriel neu ddefnyddiau o unrhyw fath neu eu gosod yn y fath fodd fel y gall ddisgyn, chwythu neu ddrifftio i'r harbwr.

Troseddau

36. (1) Bydd unrhyw berson fydd yn torri neu fethu ufuddhau i unrhyw un o ddarpariaethau'r is-ddeddfau, yn agored ar gollfarn ddi-annod i ddirwy o ddim mwy na £50.
- (2) Lle cyflawna unrhyw berson drangwydd dan yr is-ddeddfau hyn oherwydd gweithred neu ddiffyg rhyw berson arall, bydd y person arall yn euog o'r trangwydd a gall person ei gyhuddo a'i gollfarnu o'r trangwydd trwy rinwedd y paragraff hwn, hyd yn oed os bydd achosion am y trangwydd dan yr is-ddeddfau hyn yn cael eu dwyn yn erbyn unrhyw berson arall a'i peidio.
- (3) Mewn unrhyw achosion o drangwydd dan yr is-ddeddfau hyn, bydd yn amddiffyniad i'r person a gyhuddir i brofi:-
- (a) iddo gymryd pob gofal rhesymol a gweithredu pob diwydrwydd i osgoi cyflawni trosedd o'r fath; neu
- (b) fod ganddo reswm digonol dros ei weithred neu fethu gweithredu.
- (4) Os mewn unrhyw achos bod yr amddiffyniad a ddarperir gan baragraff (3)(a) o'r is-ddeddf hon yn cynnwys yr honiad bod y drosedd wedi ei chyflawni drwy weithred neu ddyfig person arall, ni chaiff y person, heb ganiatad y Llys, bod a hawl i ddibynnu ar yr amddiffyniad, onibai, o fewn cyfnod yn terfynu saith niwrnod clir cyn y gwrandawriad, iddo gyflwyno i'r erlynydd rybudd ysgrifenedig yn rhoddi gwybodaeth fydd yn adnabod neu yn cynorthwyo mewn adnabyddiaeth o'r person hwnnw fel ag yr oedd yn ei feddiant ar y bryd.

Arbedion i'r Goron

37. Nid oes dim sy'n gynnwysedig yn unrhyw un o'r is-ddeddfau uchod a ystyrir ei fod neu'n gweithredu fel caniatad gan neu ar ran y Goron fel perchennog y blaendraeth a gwely'r mor sy'n is na phen llanw, unrhyw stad neu ddiddordeb ar neu dros y blaendraeth a gwely'r mor neu unrhyw ran ohono,

ac na fydd unrhyw beth sy'n gynnwysedig yn, neu a wnaed dan ddarpariaethau'r is-ddeddfau uchod mewn unrhyw ffordd yn effeithio'n niweidiol neu ragfarnllyd yn erbyn diddordebau'r Goron yn y blaendraeth neu wely'r mor, neu rwystio ymarfir arno unrhyw hawliau cyhoeddus neu effeithio'n niweidiol neu ragfarnllyd unrhyw hawl, awdurdod, neu fraint a ymarferwyd yn gyfreithiol gan unrhyw berson dros ac ynglyn a'r cyfryw un.

Arbedion i Awdurdod Dwr Cymru

38. Ni all unrhyw beth sy'n gynnwysedig yn yr is-ddeddfau uchod effeithio a'r ddarpariaethau amddiffynol Awdurdod Dwr Cymru fel a nodir yn Adran 112 o Ddeddf Draenio Tir 1976.

Rhoddyd dan Sel Gyffredin Cyngor Dosbarth Meirionnydd y
dydd o un mil naw cant wythdeg pump

Gosodwyd yma Sel Gyffredin
Cyngor Dosbarth Meirionnydd ym
mhresenoldeb:

Cadeirydd

Prif Swyddog Cyfreithiol

DISTRICT OF MEIRIONNYDD



IS-DDEDDFAU TRAETH

IS-DDEDDFAU TRAETH

Is-ddeddfau a wnaed gan Gyngor Dosbarth Meirionnydd yn rhinwedd
y pwerau a roddwyd i'r Cyngor o dan Adran 82 o
Ddeddf Diwygio Deddfau Iechyd Cyhoeddus 1907

1. Trwy'r is-ddeddfau hyn, mae'r term 'y Cyngor' yn golygu Cyngor Dosbarth Meirionnydd.
2. CABANAU, PEBYLL, AYB
Lle y mae unrhyw ran o'r Traeth, trwy fod â rhybuddion wedi eu gosod mewn mannau amlwg ar y Traeth, wedi ei neilltuo gan y Cyngor ar gyfer codi neu osod cabanau, pebyll, siediau, byrddau a stondinau (un ai'n sefydlog neu'n symudol), neu gerbydau ar gyfer gwerthu neu arddangos unrhyw nwydd neu beth, neu unrhyw sioeau, arddangosfeydd, siglenni, "ceffylau bach" neu gyfodweithiau eraill, faniau neu gerbydau eraill, un ai wedi eu tynnu neu eu gyrru gan anifieliaid, bersonau neu unrhyw bwer mecanyddol o'r mathau a enwir yn y rhybuddion, ni wnaiff unrhyw berson sefydlu, osod neu barhau unrhyw gyfodwaith neu gerbyd wedi eu henwi ar unrhyw ran arall o'r Traeth.
3. PERFFORMIADAU, AYB
Lle y mae unrhyw ran o'r Traeth, trwy fod â rhybuddion wedi eu gosod mewn mannau amlwg ar y Traeth, wedi ei neilltuo gan y Cyngor ar gyfer traddodi darlithoedd, pregethau, areithiau neu berfformiadau cerddorol, neu ar gyfer cynnal adloniant o'r math a enwir yn y rhybuddion:
(1) Ni chaiff unrhyw berson draddodi unrhyw ddarlith, pregeth neu

araith na pherfformio unrhyw gerddoriaeth neu gynnal unrhyw adloniant o'r mathau a enwir, fel bo'r achos, ar unrhyw ran arall o'r Traeth.

- (2) Ni chaiff unrhyw berson ddefnyddio na cheisio defnyddio unrhyw ran mewn modd ag i ymyrryd â neu rwystro unrhyw berson sy'n ei ddefnyddio eisioes ar gyfer unrhyw bwrpas y mae wedi ei neilltuo ar ei gyfer.

4. CHWARAEON

Lle y mae unrhyw ran o'r Traeth, trwy fod â rhybuddion wedi eu gosod mewn mannau amlwg ar y Traeth, wedi ei neilltuo gan y Cyngor ar gyfer chwarae gemau o'r mathau (gan gynnwys y defnydd arbennig o unrhyw le gan y chwaraewyr yn unig) a enwir yn y rhybuddion.

- (1) Ni chaiff unrhyw berson chwarae unrhyw gemau a enwir yn y rhybuddion ar unrhyw ran arall o'r Traeth.
- (2) Ni chaiff unrhyw berson ddefnyddio na cheisio defnyddio unrhyw ran fel ag i ymyrryd â neu achosi blinder i unrhyw berson sy'n defnyddio'r rhan honno eisioes ar gyfer unrhyw bwrpas y mae wedi ei neilltuo ar ei gyfer.

5. GWERTHU A PHEDLERA

Lle y mae unrhyw ran o'r Traeth, trwy fod â rhybuddion wedi ei gosod mewn mannau amlwg ar y Traeth, wedi ei neilltuo gan y Cyngor ar gyfer gwerthu a phedlera nwyddau, defnyddiau neu bethau, neu ddosbarthiadau o'r rhain, fel a enwir yn y rhybuddion, ni chaiff unrhyw berson gynnig i'w werthu na phedlera'r rhain ar unrhyw ran arall o'r Traeth.

6. CARDOTA, TOWTIO, AYB

Ni chaiff unrhyw berson, ar y Traeth, beri blinder neu fod yn rhwystr

i unrhyw berson sy'n defnyddio'r Traeth trwy gardota neu erfyn elusen, neu i'r pwrpas o werthu neu hysbysebu unrhyw nwydd, neu i'r pwrpas o gael cwsmeriaeth, dwtio neu erfyn yn daer, un ai ar lafar neu trwy ddsbarthu hysbyslenni, cylchlythyrau neu hysbysebion.

Ar yr amod na fydd yn is-ddeddf hon yn gymwys ar gyfer unrhyw hel arian neu werthu unrhyw nwydd yn unol ag unrhyw Reolau a wnaed o dan Adran 5 o Ddeddf Heddlu, Ffatrioedd, ayb (Darpariaethau Amrywiol) 1916, ar hyn o bryd mewn grym yn Nosbarth Meirionnydd.

7. **MARCHOGAETH A GYRRU**

Ni chaiff unrhyw berson, ar y Traeth, ddofi unrhyw geffyl neu anifail arall na marchogaeth na gyrru unrhyw geffyl neu anifail arall mewn ras neu mewn unrhyw weithgaredd arall fel ag i achosi perygl neu flinder i unrhyw berson sy'n defnyddio'r Traeth.

8. **RHWYSTRO SWYDDOGION, AYB YN FWRIADOL RHAG CYFLAWNI**

EU DYLETSWYDDAU

Ni chaiff unrhyw berson, ar y Traeth, rwystro neu ymyrryd yn fwriadol ag unrhyw Swyddog o'r Cyngor rhag iawn gyflawni unrhyw waith yn gysylltiedig â gwella, cynnal a chadw neu reoli'r Traeth.

9. **GYRRU CERBYDAU MODUR**

Ni chaiff unrhyw berson, ar y Traeth, wthio neu yrru unrhyw gerbyd modur neu feic modur i'r perygl o unrhyw berson yn defnyddio'r Traeth.

10. Ni chaiff unrhyw berson, trwy weithredu neu achosi neu ganiatáu i

gael ei weithredu, unrhyw set radio, gramoffôn, chwyddleisydd, recordydd tâp neu offeryn tebyg neu unrhyw offeryn cerddorol, wneud, achosi neu ganiatáu i gael ei wneud unrhyw swn sydd mor uchel neu mor barhaol neu undonog fel ag i roi achos rhesymol dros beri blinder i bobl eraill ar y Traeth.

